Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Dydd Mercher, 20 Mawrth 2019

9.30 - 12.45

Prifysgol Bangor

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:	Dr Haydn E Edwards Nia Elias Yr Athro Jerry Hunter Gwilym Dyfri Jones Dr Hefin Jones Pedr ap Llwyd Dr Rhodri Llwyd Morgan Gareth Pierce Llinos Roberts Angharad Lloyd Williams Ieuan Wyn
Sylwedyddion:	Gethin Morgan (UCMC/NUS Wales) Dr Cliona O'Neill, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW) Gwyneth Sweatman (UCMC/NUS Wales)
Swyddogion:	Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd Nia Brown, Swyddog Datblygu: Ysgrifenyddiaeth
Ymddiheuriadau:	William Callaway Yr Athro Hywel Thomas Catherine Rees, Ysgrifennydd

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso a chyflwyniad	1.1 Estynnwyd croeso i'r aelodau ac yn arbennig i Angharad Lloyd Williams fel aelod newydd o'r Bwrdd. 1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau i'w cynnwys yn y cofnodion.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi ar y daflen arwyddo presenoldeb unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. 2.2 Datganodd y Cadeirydd ei fod yn Gadeirydd Fforwm Iaith Ynys Môn a'i fod wedi ymddiswyddo fel cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.		
3. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod 28 Tachwedd 2018 **(Eitem 3)**	3.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018. **Materion yn codi** 3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u cwblhau neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda. 3.3 <u>Eitem 10.5 – ColegauCymru</u> Adroddwyd bod y Coleg bellach yn aelod cysylltiol o GolegauCymru.		
4. Derbyn ac ystyried cofnodion cyfarfod caeëdig 28 Tachwedd 2018	4.1 Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod caeëdig a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2018.		

(Eitem 5)	4.2 <u>Eitem 3.5 – Buddsoddiadau</u> Adroddwyd y cyflwynir fersiwn terfynol o'r Polisi Buddsoddiadau i'r Bwrdd ar 25 Mehefin 2019.	Polisi Buddsoddiadau i'r Bwrdd	25 Mehefin 2019
5. Pwyllgor Archwilio a Risg **(Eitem 7a)** **(Eitem 7bii)**	**Pwyllgor Archwilio a Risg** 5.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2019. 5.2 Cyflwynwyd crynodeb o'r prif bwyntiau yn codi o gyfarfod 22 Chwefror 2019, gan y Cofrestrydd. **Penodi Archwilwyr Mewnol y Coleg** 5.3 Cymeradwywyd argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg i benodi cwmni TIAA fel Archwilwyr Mewnol y Coleg am gyfnod o dair blynedd o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2022. **Y Gofrestr Risg** 5.4 Derbyniwyd adroddiad ar y diwygiadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf gan y Cofrestrydd. Trafodwyd y risgiau a'r prif heriau sy'n wynebu'r Coleg. Trafodwyd cydberthynas risgiau 2 (darpariaeth Cymraeg yn AU) a 5 (risgiau allanol i'r sector). Adroddwyd bod y Coleg yn trefnu cyfarfodydd cynllunio lefel uchel gyda'r sefydliadau addysg uwch yn flynyddol i drafod y materion hyn ac y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd. 5.5 Mewn perthynas â risg 3 (Ehangu rôl y Coleg i addysg ôl-16) cadarnhawyd na fyddai cyllideb Addysg Uwch yn cael ei ddargyfeirio. Nododd y Prif Weithredwr bod argymhelliad Adroddiad Diamond yn glir ynghylch yr angen i neilltuo o leiaf £5.4m drwy'r Coleg ar gyfer	Adroddiad blynyddol y cyfarfodydd cynllunio i'r Bwrdd (DP)	25 Mehefin 2019

(Eitem 7biii)	Addysg Uwch. Mewn perthynas â Risg 1 (niferoedd myfyrwyr) crybwyllwyd cynlluniau addysg Gymraeg yr awdurdodau lleol a chytunwyd i ystyried hyn ymhellach. 5.6 Yn dilyn y drafodaeth derbyniwyd y Gofrestr Risg gyda'r addasiadau a argymhellwyd. **Polisi cronfeydd wrth gefn** 5.7 Nodwyd polisi cronfeydd wrth gefn y Coleg.		
6. Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol **(Eitem 8a)** **(Eitem 8b)**	**Cofnodion Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** 6.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019. 6.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 16 Ionawr 2019, gan y Cadeirydd: • Nododd bod polisïau'r Coleg o safon uchel • Nododd y bydd adolygu a monitro buddsoddiadau'r Coleg yn symud dan ofal y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (o'r Pwyllgor Archwilio a Risg) maes o law **Cyllideb 2019/20** 6.3 Cyflwynwyd Cyllideb y Coleg ar gyfer 2019/20 gan Dr Dylan Phillips. 6.4 Yn ystod y drafodaeth nodwyd: • bod y Coleg yn hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion blwyddyn 9 erbyn hyn • bod Ysgoloriaethau Ymchwil yn parhau'n allweddol i ddatblygu a chynnal niferoedd darlithwyr yn y dyfodol		

	• ymateb positif gan fyfyrwyr i bresenoldeb y Coleg ar gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys anelu negeseuon trydar fesul pwnc • awgrymiadau ar gyfer ymestyn proffil y Coleg 6.5 Yn dilyn trafodaeth lawn cymeradwywyd y gyllideb.		
7. Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant	*Ar y pwynt hwn ymadawodd Gwilym Dyfri Jones yr ystafell.* **Ail-benodi Cyfarwyddwr** 7.1 Argymhellwyd a chymeradwywyd ail-benodi Gwilym Dyfri Jones am ail dymor o bedair blynedd o 12 Mai 2019 – 11 Mai 2023. *Ar y pwynt hwn dychwelodd Gwilym Dyfri Jones i'r ystafell.*		
8. Bwrdd Academaidd **(Eitem 10)**	8.1 Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2019. 8.2 Cafwyd crynodeb o brif bwyntiau cyfarfod 6 Chwefror 2019, gan y Deon, Dr Hefin Jones. **Papur y myfyrwyr** 8.3 Adroddwyd bod cynrychiolwyr y myfyrwyr wedi cyflwyno papur ar sefydlu Llywydd etholedig cenedlaethol a nodwyd y trafodaethau arfaethedig. Adroddodd Gwyneth Sweatman ar safbwynt cefnogol Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'i pholisi dwyieithog. **Adolygu cynlluniau pynciol** 8.4 Adroddwyd bod proses adolygu cynlluniau pynciol wedi'i gadarnhau yn y cyfarfod. **Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil**		

	8.5 Adroddodd yr Athro Jerry Hunter, Cadeirydd y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi, ar ddyletswydd y sefydliadau i godi ymwybyddiaeth bod modd cyflwyno ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg i'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF). Ategwyd hyn gan Dr Cliona O'Neill. ***Gwerddon*** 8.6 Adroddwyd bod *Gwerddon* wedi cyhoeddi ei 100fed erthygl. **Presenoldeb** 8.7 Adroddwyd rhywfaint o gonsyrn am bresenoldeb rhai aelodau mewn cyfarfodydd diweddar o'r Bwrdd Academaidd. Nododd y Prif Weithredwr y disgwylir i'r canghennau anfon cynrychiolydd i bob cyfarfod ac y byddai aelodaeth y Bwrdd Academaidd yn cael ei adolygu. 8.8 Mewn ymateb i gwestiwn, adroddwyd y bwriad i greu fforwm addas ar wahân i'r Bwrdd Academaidd ar gyfer trafodaethau addysg bellach ond nad oedd y modelau posibl wedi eu hystyried yn llawn hyd yma. **Taith flynyddol y Deon** 8.9 Adroddodd y Deon ar ei daith flynyddol â'r sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach. Nododd y gofid mewn rhai meysydd, a'r gwyddorau yn benodol, bod cynifer o fyfyrwyr yn dewis peidio astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. **Myfyrwyr y tu hwnt i'r ffin** 8.10 Adroddwyd yn fyr ar drafodaethau cychwynnol i gynnal cyswllt gyda myfyrwyr sy'n astudio tu hwnt i Gymru.		

9. Materion Cyfansoddiadol	**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, 19 Mawrth 2019** 9.1 Adroddwyd ar Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Coleg (y Llys) a gyfarfu'r diwrnod blaenorol. **Ymestyn aelodaeth y Llys** 9.2 Adroddwyd y byddai papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd yn argymell ymestyn aelodaeth y Llys i adlewyrchu cyfrifoldebau'r Coleg yn y sector ôl-16. 9.3 Cyflwynir cynnig i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr nesaf.	Papur i'r Bwrdd	25 Mehefin 2019
10. Materion y Cadeirydd	**Diolchiadau a llongyfarchiadau** 10.1 Diolchodd y Cadeirydd yr Athro Iwan Davies am gadeirio cyfarfod fis Tachwedd yn ei absenoldeb. Diolchwyd iddo'n ogystal am ei arweiniad cyfreithiol doeth ac ystyrlon yn ystod ei gyfnod ar y Bwrdd. 10.2 Nodwyd mai dyma oedd cyfarfod olaf Ieuan Wyn fel aelod o'r Bwrdd. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad a'i weledigaeth gref ar hyd ei wasanaeth ar y Bwrdd. 10.3 Estynnwyd llongyfarchiadau i Pedr ap Llwyd ar ei benodiad fel Prif Weithredwr a Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru. **Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol** 10.4 Cadarnhawyd yr argymhelliad bod Pedr ap Llwyd yn cadeirio'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. **Pwyllgor Archwilio a Risg**		

	10.5 Adroddodd y bu Gareth Pierce yn aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio a Risg ond ei fod bellach yn aelod yn cynrychioli'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.		
	Cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant		
	10.6 Adroddodd y bydd cyfnod Meirion Prys Jones fel cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethant yn dod i ben fis Gorffennaf 2019. Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno enwebiadau erbyn diwedd Mawrth a bydd yr Ysgrifennydd yn cyflwyno enw yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Cyflwyno enw i'r Bwrdd	25 Mehefin 2019
	Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr		
	10.7 Gofynnwyd i'r aelodau gyflwyno enwebiadau erbyn diwedd Mawrth ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Gwneir y penodiad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.	Penodi Is-Gadeirydd y Bwrdd	25 Mehefin 2019
	10.8 Trafodwyd pwysigrwydd cydraddoldeb rhywedd wrth benodi aelodau.		
	Lleoliad cyfarfodydd		
	10.9 Trafodwyd rhinweddau cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thros y fideo gynadledda. Cytunwyd y dylid parhau i gynnal y Bwrdd Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Academaidd wyneb yn wyneb a'r pwyllgorau eraill dros y rhwydwaith fideo.		
	Holiadur arfarnu'r Bwrdd Cyfarwyddwyr		
	10.10 Adroddodd y bydd yr Ysgrifennydd yn cylchredeg holiadur arfarnu'r Bwrdd i'w gwblhau fis Ebrill. Bydd	Cylchredeg holiadur arfarnu'r Bwrdd	Ebrill 2019

	adroddiad ar yr ymatebion yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant. **Arfarnu perfformiad y Prif Weithredwr** 10.11 Adroddodd bod system arfarnu perfformiad y Prif Weithredwr wedi ei gytuno a bod un cylch blynyddol wedi ei gwblhau. Diolchwyd i'r Athro Hywel Thomas am ei ran yn yr arfarniad. **Lansiad ÔI-16** 10.12 Adroddodd ar lansiad ôl-16 yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro ar 24 Ionawr 2019. Diolchodd i aelodau'r Bwrdd a oedd yn bresennol.		
11. Adroddiad y Prif Weithredwr **(Eitem 13)**	11.1 Derbyniwyd crynodeb llafar gan y Prif Weithredwr o'r adroddiad ysgrifenedig ar weithgareddau diweddar a oedd wedi ei gylchredeg o flaen llaw. **Addysg Uwch – trefniadau monitro** 11.2 Adroddwyd bod CCAUC yn cynghori sefydliadau i ymgynghori â'r Coleg ynghylch mesuryddion cyfrwng Cymraeg i'w cynnwys yn y cynlluniau ffioedd a mynediad. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'r argymhelliad yn yr Adroddiad Data a gyflwynwyd gan y Coleg ym mis Medi 2018 y bydd y targedau Cenedlaethol yn adlewyrchu mesuryddion y cynlluniau ffioedd o 2019/20 ymlaen. Trafodwyd pwysigrwydd gosod targedau ystyrlon sydd yn adlewyrchu niferoedd y siaradwyr Cymraeg mewn prifysgolion a'r canran y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. **Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon**		

	11.3 Adroddwyd bod trafodaethau yn parhau ynghylch rôl y Coleg mewn perthynas â Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Nodwyd nad oes cyllid yn y Llythyr Grant i gyllido unrhyw weithgareddau yn y cyswllt hwn wedi i'r Dystysgrif Cymhwysedd Athrawon presennol ddod i ben ond bod cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ar ddechrau Ebrill i drafod y mater ymhellach. 11.4 Cododd aelodau o'r Bwrdd fater perthynol sef y niferoedd isel sydd yn dilyn cyrsiau HCA drwy gyfrwng y Gymraeg a bod goblygiadau difrifol i hyn yn y tymor canolig o ran cynllunio gweithlu ac ymateb i dargedau Strategaeth Iaith Llywodraeth Cymru. Nodwyd hefyd nad oedd hyfforddeion sydd yn cymhwyso tu allan i Gymru yn derbyn hyfforddiant ar y cwricwlwm newydd sydd yn cael ei gyflwyno yng Nghymru. **Addysg Bellach** 11.5 Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig llawn ar y sefyllfa gyfredol gan nodi y bydd hyn yn destun cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. **Cyfarfodydd** 11.6 Adroddwyd ar gyfarfodydd strategol gyda Phrif Weithredwyr nifer o gyrff eraill gan gynnwys Cymwysterau Cymru, y Cyngor Gweithlu Addysg, CBAC a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Nododd y Prif Weithredwr ei fod hefyd wedi cynnal cyfarfod diweddar gyda Darpar Gomisiynydd y Gymraeg. **Diweddariadau cyffredinol ar waith y Coleg**	Cyflwyniad Addysg Bellach yn y Bwrdd	25 Mehefin 2019

	11.7 Derbyniwyd adroddiadau ysgrifenedig mewn perthynas â Marchnata a Chyfathrebu; Hyfforddiant Academaidd a Datblygu Staff; *Gwerddon* a phrosiectau cyhoeddi eraill; Cynllun Darlithwyr Cysylltiol; Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwnc; Cynllun Cymraeg Gwaith; a Gwasanaethau Gwybodaeth er gwybodaeth.		
12. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru	12.1 Derbyniwyd a nodwyd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru at y Coleg 2019/20 a gylchredwyd ar wahân i aelodau'r Bwrdd Cyfarwyddwyr.		
13. Cynllun Strategol	13.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar Gynllun Strategol y Coleg rhwng 2019/20 a 2023/24 gan y Prif Weithredwr. 13.2 Trafodwyd camau cyntaf paratoi Cynllun Strategol. Cytunwyd ar drefnu cyfarfod arbennig i wyntyllu cynnwys y cynllun cyn cyflwyno drafft i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 25 Mehefin 2019. Disgwylir y bydd ymgynghoriad yn yr haf.	Trefnu cyfarfod i'r Cyfarwyddwyr Cyflwyno Cynllun Strategol drafft i'r Bwrdd	Ar unwaith 25 Mehefin 2019
14. Grantiau pynciol **(Eitem 16)**	14.1 Cyflwynodd Dr Dylan Phillips argymhellion ar ddyfarnu grantiau pynciol a grantiau sbarduno. 14.2 Nodwyd cymeradwyaeth yr Archwilwyr Mewnol ar y broses grantiau pynciol. 14.3 Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd yr argymhellion yn unfrydol. 14.4 Nodwyd hefyd, er gwybodaeth, y Grantiau Sbarduno sydd i'w dyrannu yn 2019/20 yn dilyn ymchwil penodol a gomisiynwyd gan y Coleg ar feysydd lle mae niferoedd		

	myfyrwyr cyfrwng Cymraeg ond dim darpariaeth ar hyn o bryd.		
15. Cyflwyniad ar adnoddau	15.1 Rhoddwyd cyflwyniad ar adnoddau gan Mari Fflur, Rheolwr Academaidd. Croesawyd y cyflwyniad a gododd ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r Bwrdd.		
16. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf	16.1 Nodwyd dyddiad y cyfarfod nesaf: • 25 Mehefin 2019, Aberystwyth 16.2 Estynnwyd gwahoddiad i'r aelodau i noson wobrwyo'r Darlithwyr Cysylltiol a fydd yn dilyn y cyfarfod. 16.3 Diolchwyd i'r cyfieithwyr ar y pryd am eu gwaith. 16.4 Diolchwyd i staff Prifysgol Bangor am eu cymorth gyda threfnu'r cyfarfod.		